

CYNGOR BRO LLANGELER – 27- 01-2020

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Ionawr 27ain 2020 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **01/20 PRESENNOL:** Yn y gadair – Is Gadeirydd Cyng. D Evans Cynghorwyr: Jamie Ayres, John Crossley, Aled Eynon, Richard Evans, Ken Howell, Brenda Jones, Christopher Jones, Nesta Jones, Dilwyn Smith, Adrian Thomas, John Wigley. Clerc – Stella Jones. Cyfieithydd, Aelodau o'r Cyhoedd

Dymunodd y Cadeirydd Blwyddyn Newydd Dda i bawb a llongyfarchodd y Cyng J Ayres ar gael ei ethol yn Gadeirydd Y Pwerdy, Llandysul

2. **01/20 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. M Rees,

3. **01/20 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim

4. **01/20 HEDDLU:** PCSO J Kedward dwedodd bod y ddau gar 4X4 sy'n cael eu parcio wrth wal mynwent St Barnabas yn barhaol yn eiddo i'r person sy'n byw yn y tŷ ochr arall yr hewl. Codwyd cwestiwn iddo ynghylch y person sy'n byw yn Plas, Waungilwen – gwnaed ymholiadau a does dim pryder gan yr heddlu. Gwnaed ymholiadau ynghylch cwyn am y cerbydau sy'n parcio ar y palmant ym Mhentrecagal, does neb am wneud cwyn swyddogol. Preswylwyr Pont Tyweli yn cwyno eu bod yn cael ei codi yn gynnar yn y bore i symud ei ceir fel bod lorïau sy'n dod a deunyddiau i Jewson – dwedodd J Kedward taw nid mater i'r heddlu yw hyn

5. **01/20 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Tachwedd 28ain 2019 a'i cael yn gywir wedi gwneud y newid bod Cyng. B Jones yn bresennol yn y cyfarfod.

Cynigydd – Cyng. J Crossley

Eilydd – Cyng. J Ayres

6. **01/20 MATERION YN CODI :**

7.xv.05/16 Caeau Canmlwyddiant – derbyniwyd copi drafft o'r cytundeb

10.11.07/16. Toiledau Parc Puw – toiledau wedi cau am y Gaeaf bwriedir peintio yn y Gwanwyn

10.i.06/17 Tir Temple – dim ychwanegol wedi digwydd ynghylch yr hewl mae perchennog y garafán yn apelio yn erbyn y Gorchymyn Gorfodaeth

6.xx. Les Cae Chwarae Maesyderi, Pentrecwrt – dwedodd y Clerc bod y les ar waith gan y cyfreithwyr

10.01/19 Dadorchuddio Plac Caeau Canmlwyddiant – dim i ychwanegu ar hyn o bryd

7. **01/20 GOHEBIAETH:**

i. Western Power – Unmetered Christmas Lights

ii. ebost – Cau Hewl ar Frys yn Cwmpengraig, Drefach, Felindre – *cylchlythyrwyd a nodwyd*

iii. ebost – CSG – Gwariant Dewisol – *nodwyd y swm ar gyfer pob etholwr*

iv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 25.11.2019 - 29.11.2019 – *cylchlythyrwyd*

v. ebost – ULIC – Bwletin Newyddion – *cylchlythyrwyd*

vi. ebost – CSG – cau ffordd dros dro - C1295, Glanesgair, Dre-fach Felindre, SA44 5HR – *cylchlythyrwyd*

vii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 02.12.2019 - 06.12.2019 – *cylchlythyrwyd anodwyd*

viii. ebost – CSG – Craffu Sir Gar – *cylchlythyrwyd*

ix. ebost – Ymgynghoriad Ynghylch Praesept yr Heddlu 2020/21 – *cylchlythyrwyd*

x. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 09.12.2019 - 13.12.2019 – *cylchlythyrwyd*

xi. ebost – ULIC – Dogfen Ymgynghori – Newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig – *cylchlythyrwyd a nodwyd*

xii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 23.12.2019 - 27.12.2019 – *cylchlythyrwyd*

xiii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 16.12.2019 - 20.12.2019 – *cylchlythyrwyd*

xiv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 06.01.2020 - 10.01.2020 – *cylchlythyrwyd*

xv. ebost – CSG – Ymgynghoriad Cyllid Cyngor Sir Gâr 2020 – *cylchlythyrwyd*

xvi. ebost – Gorchymyn Dargyfeirio Llwybr Cyhoeddus – *cylchlythyrwyd*

xvii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 13.01.2020 - 17.01.2020 – *cylchlythyrwyd*

xviii. ebost – CSG – Llwybr Cyhoeddus – *dwedodd Martin Murray byddai yn cael y Ceidwaid' i fynd i weld y safle*

xix. ebost – Graham Thompson, Pentrecagal – Diogelwch Ffordd – *cylchlythyrwyd*

xx. ebost – Ceisiadau Cynllunio 20.01.2020 - 24.01.2020 – *cylchlythyrwyd*

xxi. ebost – Rhodri Edwards – Caeau Canmlwyddiant – *deliwyd o dan Materion yn Codi*

xxii. ebost – CSG – Cau Hewl ar Frys – Penlonrhadis, Pwllmarl Rd, Velindre, SA44 5HT – 95195659

8. 01/20 CYNLLUNIO

Cais Ymgynghori llawn

W/39871 – Pantybarcud, Velindre SA445XJ – trawsnewid ysgubor i osod dros y gwyliau – *dim gwrthwynebiad*

W/39873 – Land adjacent to Redlands, Rhos SA44 5EE – adeiladu byngalo dormer yn debyg i siâp a maint tai cyfagos ôl Troed 82mstr sgwâr – *dim gwrthwynebiad*

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

- W/39878 – plot cyfagos i Rhos Felen, Saron SA44 5EB – adeiladu tŷ sengl ar safle oedd wedi cael hawl cynllunio o'r blaen – *dim gwrthwynebiad*
- W/39913 – Bwlch, Capel Iwan SA38 9NW – trawsnewid prif adeilad mas , datgymalu ac ail-adeiladu adeilad sydd yng nghlwm i adeilad sydd yno'n barod a chysylltu estyniad i ffurfio dau uned gwyliau – *dim gwrthwynebiad*
- W/39944 – plot cyfagos i Llety'r Clos, 2 The Courtyard, Pentrecagal SA38 9HX – cais arfaethedig i adeiladu tŷ sengl newydd – *dangos y pryder ynghylch y mynedfa ceir yn dod allan i'r briffordd*
- W/40000 – Penpistyll, Bancyffordd SA44 4RY– newid arfaethedig o ddefnydd/trawsnewid ysgubor i dŷ byw – *dim gwrthwynebiad*
- W/40030 – tir ger Gorlan Farm, Pantybwllch SA38 9JE – adeilad arfaethedig menter gwledig yn cynnwys mynediad i gerbydau a gosod gwaith trin pacio – *pryder ynghylch y ffaith bod adeilad ar gyfer defnydd masnachol ddim yn addas i asio mewn i'r amgylchedd*
- W/40001 – Cwrt y Cadno, Velindre SA44 5YF – estyniad i porth y tŷ ac estyniad i'r garej presennol – *caniatâd wedi rhoi i'r cais hwn*
- W/40122 – tir i'r dwyrain o Aelybryn, Bancyffordd SA44 5AA – tŷ sengl un llawr newydd – *dim gwrthwynebiad*

9. 01/20 MATERION ARIANNOL

a. i. Derbyn Cyllideb am 2020/21 – *derbyniwyd y gyllideb*

ii. Penderfynu ar y Praesept – *yn dilyn trafodaeth ar y gyllideb cytunwyd codi'r praesept gan 2%*

b. Anfonebau

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 27/01/2020£71.40
- ii. HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 27/01/20(+Mai2019)£22.75
[caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]
- iii. CLERC [Papur argraffu x6].....£41.57
- iv. CLERC [Inc argraffu pecyn dwbl].....£113.90
- v. CLERC [bathodynau swydd]£61.49

Arian yn y Banc ar 13/01/2020£26,079.46

c. S/O

Cyflog y Clerc£600.00

ch. Derbyniadau

- Taliad am Torch Sul y Cofio.....£12.00
- Cwmins Waungilwen£480.00
- Praesept£10,537.73

10. 01/20 MATERION ANGEN TRAFODAETH

Arwyddion Llwybrau Gwlân – cytunwyd y dylid ail gwneud dau o'r arwyddion y flwyddyn. Dwedodd Cyng D Evans y byddai'n barod i fynd o gwmpas i edrych ar gyflwr yr arwyddion a'i trefnu yn ôl blaenoriaeth. Eleni cytunwyd i wneud yr un ar Sgwâr Gât ac yr un tu allan i'r Amgueddfa.

11. 01/20 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

- Cyng. A Thomas – i. oherwydd y gwynt cryf yn ddiweddar mae tua hanner golau Pont Tyweli ddim yn gweithio
ii. cyflwr yr hewl o Cwmtwyll i Pencader yn ofnadwy
- Cyng. D Smith – i. tir lithriad ar y llwybr tuag at Dolwion – Clerc i roi gwybod i Martin Murray
- Cyng. R Evans – i. cyflwr yr hewl o Bancyffordd i Llanpumsaint mewn cyflwr difrifol – *rhoi gwybod i'r Sir*
- Cyng. J Wigley – i. nododd bod gwaith glanhau draenau ger Aberbudrell a Phensarn wedi gwneud
ii. mae'r hewl yn suddo ger Pont Henllan
- Cyng. J Crossley i. dwedodd bod yr Ysgubwr Ffordd wedi bod lan un ochr o'r pentref ond wedi methu ar yr ochr arall
gan bod ceir yn parcio wrth ochr y ffordd
ii. dŵr bron yn croesi'r hewl yn Dan coed, Llandysul
- Cyng. N Jones – i. oes modd ffeindio allan beth fyddai'r gost o gael lamp arall ar sgwâr Pentrecwrt
- Cyng. K Howell – mae'r arwyddion mawr ar gyffordd Tŷ Coch yn beryglus i gerbydau uchel -

12. 01/20 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd yr Eglwys, Penboy, Felindre, Llandysul nos Lun Chwefror 24ain 2020 am 7.30 yh.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.45yh

.